

# Cadwch er gwybodaeth

## Telerau ac Amodau ar gyfer Gwasanaeth Ailgyfeirio i Ddefnyddwyr y Post Brenhinol a'r Gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig

### PWYSIG

Mae'r telerau ac amodau hyn, ynghyd â'r ffurflen gais Ailgyfeirio berthnasol, yn llywodraethu ein gwasanaeth Ailgyfeirio ar gyfer Defnyddwyr a'n gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig. Darllenwch y telerau ac amodau hyn yn ofalus cyn gwneud cais am un o'r gwasanaethau Ailgyfeirio hyn. Os nad ydych yn deall unrhyw bwynt, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar: **0345 774 0740**.

Tynnir eich sylw at gymalau 9, 11, 12 ac 20 o'r Telerau ac Amodau hyn, sydd yn nodi terfynau y gwasanaeth Ailgyfeirio, eich atebolrwydd chi a'n hatebolrwydd ni mewn cysylltiad â'n gwasanaeth Ailgyfeirio ar gyfer Defnyddwyr a'n gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig a Diogelu Data. **Os ydych yn gwneud cais am Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig**, tynnir eich sylw at gymal 4 o'r Telerau ac Amodau hyn.

Nid yw amserau dosbarthu wedi eu gwarantu yn unol â'n gwasanaeth Ailgyfeirio ar gyfer Defnyddwyr na'n gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw eitemau a anfonir gyda Special Delivery y Post Brenhinol. Nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol.

## 1 Diffiniadau

1.1 Mae'r geiriau a ddiffinnir yn y ffurflen, a'r rheiny a nodir isod, yn berthnasol i'r telerau ac amodau hyn (**telerau**) oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall:

Mae **personau ychwanegol** yn golygu pobl ar wahân i'r prif ymgeisydd y mae eu manylion wedi eu cynnwys ar y ffurflen neu y mae'r prif berson sy'n gwneud cais am wasanaeth ailgyfeirio yn ei nodi wrth wneud cais dros y ffôn;

Mae **cytundeb** yn golygu cytundeb ar delerau'r ffurflen a'r telerau hyn;

Mae **ffurflen** yn golygu'r ffurflen berthnasol ar gyfer gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio, naill ai (i) ar bapur ac ar gael yn **www.royalmail.com/redirection**, canghennau Swyddfa'r Post® neu y gwneir cais amdani oddi wrth ein tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid (y ffurflen bapur); neu (ii) lle y bo'n berthnasol, y ffurflen a lenwyd ar-lein yn **www.royalmail.com/redirection** i wneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio (y ffurflen ar-lein);

Mae **prif ymgeisydd** yn golygu (i) mewn perthynas â'r ffurflen ar gyfer gwasanaeth Ailgyfeirio Defnyddwyr, y person y mae eu manylion wedi eu cynnwys gyntaf yn adran 2 o'r ffurflen bapur neu, pan fydd y cais wedi ei wneud ar-lein neu dros y ffôn, y person sy'n gwneud y cais; ac (ii) mewn perthynas â'r ffurflen ar gyfer Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig, y person yr ydym yn ffurfio cytundeb nhw, fel y nodir yng nghymal 2.3;

mae **cyfeiriad newydd** yn golygu'r cyfeiriad lle bydd post yn cael ei ailgyfeirio, fel y nodir yn y cais;

Mae **hen gyfeiriad** yn golygu'r cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig y bydd post yn cael ei atgyfeirio oddi yno, fel y nodir yn y cais;

Mae gwasanaeth **Ailgyfeirio** yn golygu ein gwasanaeth a ddisgrifir yn y telerau ac amodau hyn lle mae post yn cael ei ailgyfeirio o'r hen gyfeiriad i'r cyfeiriad newydd;

Mae **Tymor Ailgyfeirio** yn golygu'r amser y gofynnir i ni ddarparu gwasanaeth Ailgyfeirio, fel y nodir yn y cais (hyd at dri mis, tri i chwe mis neu chwech i ddeuddeg mis, oni nodir fel arall yn y cais), ynghyd ag unrhyw adnewyddu a wneir yn unol â chymal 8;

Mae **Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig** yn golygu gwasanaeth Ailgyfeirio yn dilyn cais a wnaed yn unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir yng nghymal 4;

Mae gwasanaeth **Ailgyfeirio Defnyddwyr** yn golygu gwasanaeth Ailgyfeirio nad yw'n Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig;

Mae **ni ac ein** yn golygu Grŵp y Post Brenhinol Cyfyngedig, cwmni sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif cwmni: 4138203) y mae ei swyddfa gofrestredig yn 100 Victoria Embankment, London EC4Y OHQ; rhif cofrestru TAW Grŵp y Post Brenhinol yw GB243170002;

Mae **diwrnod gwaith** yn golygu unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn neu ddydd Sul neu unrhyw ŵyl y banc neu ŵyl genedlaethol arall; ac

Mae **chi ac eich** yn golygu bob person yr ydym yn ffurfio cytundeb â nhw, fel y disgrifir ymhellach yng nghymal 2 a chymal 4.5.

## 2 Ein cytundeb gyda chi

- 2.1 Mewn perthynas â gwasanaeth Ailgyfeirio Defnyddwyr y gwneir cais amdano gan ddefnyddio'r ffurflen bapur, rydym yn ffurfio cytundeb gyda phob person sy'n llofnodi'r ffurflen bapur.
- 2.2 Mewn perthynas â gwasanaeth Ailgyfeirio Defnyddwyr y gwneir cais amdano gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu dros y ffôn, rydym yn ffurfio cytundeb gyda'r prif ymgeisydd.
- 2.3 Mewn perthynas ag Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig:
  - 2.3.1 ar gyfer ceisiadau a wnaed yn unol â chymal 4.2, rydym yn ffurfio cytundeb gyda'r prif ymgeisydd; ac
  - 2.3.2 ar gyfer ceisiadau a wnaed yn unol â chymal 4.3, rydym yn ffurfio cytundeb gyda rhoddwr yr Atwrneiaeth berthnasol.
- 2.4 Chi fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'ch ymrwymadau eich hunan yn y cytundeb hwn. Byddwch hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod pob person arall sy'n ffurfio'r cytundeb hwn gyda ni yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau ac yn cadarnhau eich bod wedi cael caniatâd y personau eraill sydd wedi eu rhestru ar y ffurflen gais i weithredu ar eu rhan mewn perthynas â'r cytundeb hwn.
- 2.5 Mae ein cytundeb gyda chi yn cynnwys y ffurflen gais wedi ei chwblhau a'r telerau ac amodau hyn.

Daw pob cytundeb i rym o'r adeg y byddwn yn derbyn y ffurflen gais berthnasol (yn cynnwys ein tâl am y gwasanaeth Ailgyfeirio).

## 3 Y cais

- 3.1 Ni fyddwn yn sefydlu gwasanaeth Ailgyfeirio oni bai ein bod yn fodlon ynghylch eich hunaniaeth a'ch awdurdod i wneud cais. Mae rhestr o'r eitemau y byddwn yn eu derbyn fel tystiolaeth o'r gofynion hyn wedi ei rhestru ar y ffurflen ac, yn achos cais am Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig, yng nghymal 4. Oni nodir fel arall, mae'n rhaid darparu tystiolaeth o hunaniaeth gan ac ar gyfer (i) y prif ymgeisydd; ac (ii) unrhyw berson arall a nodir ar y ffurflen sydd â chyfenw gwahanol.
- 3.2 Gallwch ond gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio fel prif ymgeisydd (ac unrhyw estyniad i'r tymor Ailgyfeirio yn unol â chymal 8) os ydych yn 18 oed o leiaf. Mae'n rhaid i'r prif ymgeisydd (ac unrhyw enwau eraill fydd yn cael eu cynnwys) fod wedi preswyllo yn y cyfeiriad yn y tri mis cyn dyddiad y cais.
- 3.3 Ni allwch gynnwys unrhyw berson ychwanegol ar y ffurflen, nac mewn cais a wneir dros y ffôn, oni bai bod gennych ei gytundeb ef neu hi i wneud hynny, neu fod gennych fel arall awdurdod i wneud y cais ar ran y person hwnnw, neu fod y person ychwanegol o dan 16 oed a'ch bod yn rhiant neu warcheidwad sydd â hawl i wneud cais ar ei ran ef neu hi.
- 3.4 Os byddwch yn llenwi cais (yn cynnwys unrhyw gais ymestyn a wneir yn unol â chymal 8) ar ran unrhyw berson ychwanegol, rydych yn cadarnhau i ni bod

gennych ganiatâd penodol y person i wneud y cais ar ei ran ef neu hi, neu fod gennych fel arall awdurdod i wneud y cais ar ei ran ef neu hi, neu fod y person ychwanegol o dan 16 oed a'ch bod yn rhiant neu'n warcheidwad sydd â hawl i wneud y cais ar ei ran ef neu hi.

- 3.5 Nid oes rhaid i ni dderbyn cais. Gallwn wrthod cais os bydd gennym reswm da dros wneud hynny. Mae'r rhesymau pam y gallem wrthod cais yn cynnwys:
  - 3.5.1 methu darparu dogfennau sy'n ofynnol gennym ni i ddilysu eich hunaniaeth a'ch cyfeiriad, neu hunaniaeth neu gyfeiriad unrhyw berson ychwanegol;
  - 3.5.2 mae gennym reswm i gredu nad yw'r dogfennau yr ydych wedi eu darparu ar ein cyfer yn ddilys;
  - 3.5.3 rydym o'r farn nad ydych chi neu unrhyw berson ychwanegol yn preswyllo yn yr hen gyfeiriad;
  - 3.5.4 rydym yn amau nad yw unrhyw berson ychwanegol wedi rhoi eu caniatâd penodol i'r gwasanaeth Ailgyfeirio neu nad oes gennych yr awdurdod i wneud y cais ar ei ran ef neu hi; neu
  - 3.5.5 byddai'r gwasanaeth Ailgyfeirio yn anymarferol yn weithredol, er enghraifft, os byddwch yn gofyn i bost gael ei ailgyfeirio i ddau leoliad ar wahân.
- 3.6 Os byddwn yn dewis peidio derbyn cais, neu os nad ydym yn gallu gweithredu'r gwasanaeth Ailgyfeirio, byddwn yn rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig, yn yr hen gyfeiriad neu'r cyfeiriad newydd (yn dibynnu ar eich dyddiad symud) ac yn ad-dalu'r taliadau yr ydym wedi eu derbyn.
- 3.7 Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith os yw unrhyw wybodaeth a roddwyd i ni yn y ffurflen yn newid.
- 3.8 Mae'n drosedd gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio heb yr awdurdod cywir.
- 3.9 Os yw'r Post Brenhinol yn derbyn gwrthwynebiad i'ch cais, mae'n ddyletswydd arnom i ymchwilio i'r mater er mwyn diogelu'r rheiny a enwir yn y cytundeb a phreswylwyr y cyfeiriad sydd wedi ei effeithio. Tra bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal ar eich cyfeiriad gall eich post gael ei ddal i fyny am hyd at 10 diwrnod gwaith nes bod yr ymholiadau wedi eu cwblhau. Gallem ofyn i chi ddarparu o leiaf dwy ddogfen wreiddiol sydd wedi eu dosbarthu i'r hen gyfeiriad yn y tri mis cyn dechrau'r gwasanaeth; ni ellir derbyn dogfennau sydd wedi eu hargraffu gennych chi at y dibenion hyn. Mae rhestr lawn o'r dogfennau a dderbynnir ar ein gwefan yn [www.royalmail.com](http://www.royalmail.com) neu yn mewn llenyddiaeth am ein cynnyrch. Os na allwch fodloni'r gofynion hyn, gellir canslo'r gwasanaeth.
- 3.10 Os oes unrhyw anghydfod ynghylch gan bwy y mae hawl i wneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio, er enghraifft os yw mwy nag un person yn gwneud cais yn ymwneud â phost wedi ei gyfeirio at berson

penodol, gallwn gadw'r post am gyfnod o ddeg diwrnod gwaith er mwyn galluogir partion i ddatrys y mater neu i gael gorchymyn Llys sydd yn cadarnhau hunaniaeth y person a ganiateir i wneud y cais. Os na ellir datrys y mater o fewn 10 diwrnod gwaith, efallai y caiff y gwasanaeth ei ganslo neu bod unrhyw enwad sydd wedi eu heffeithio'n cael eu tynnu o'r cytundeb a chaiff y post ei ddsbarthu yn unol â'r cyfeiriad arno.

- 3.11 Os bydd y Post Brenhinol yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â chamddefnyddio'r gwasanaeth, neu weithgareddau twyllodrus gan yr heddlu neu gyrrff swyddogol eraill, efallai caiff y gwasanaeth ei ganslo am y rheswm hwn.

## 4 Ceisiadau mewn amgylchiadau arbennig

- 4.1 Byddwn ond yn derbyn cais yn ymwneud â phost wedi ei gyfeirio at berson ymadawedig a wneir gan (yn nhrefn blaenoriaeth):
- 4.1.1 y person sydd â'r Grant Profiant yn ymwneud â'r person ymadawedig;
- 4.1.2 y person sydd â'r Llythyrau Gweinyddol yn ymwneud â'r person ymadawedig;
- 4.1.3 ysgutor a enwir yn ewyllys y person ymadawedig; neu
- 4.1.4 deiliad copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth y person ymadawedig.
- 4.2 Os bydd person (y rhoddwr) wedi rhoi Atwrneiaeth i berson arall (yr atwrnai), byddwn ond yn derbyn cais yn ymwneud â phost y rhoddwr gan y rhoddwr eu hunain neu'r atwrnai fel prif ymgeisydd.
- 4.3 Mae'n rhaid gwneud ceisiadau a wneir yn unol â chymalau 4.1 neu 4.2 gan ddefnyddio ein ffurflen Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig ac mae'n rhaid iddynt gynnwys y dystiolaeth hunaniaeth ganlynol:
- 4.3.1 ar gyfer y person y mae'r post yn cael ei ailgyfeirio ar eu cyfer, naill ai:
- (a) yn achos person ymadawedig, y copi gwreiddiol neu gopi swyddfa o'u dystysgrif marwolaeth; neu
- (b) yn achos rhoddwr Atwrneiaeth, a phan fydd y cais yn cael ei wneud gan eu hatwrnai, copi ardystiedig o'r Atwrneiaeth hwnnw; ac
- 4.3.2 ar gyfer y prif ymgeisydd, y dystiolaeth a restrir ar y ffurflen.
- 4.4 Mae'n bosibl cynnwys personau eraill yn y cais am Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig, cyhyd â bod:
- 4.4.1 eu hen gyfeiriad a'u cyfeiriad newydd yr un peth â rhai'r person y mae eu manylion wedi eu nodi yn adran 2 o'r ffurflen Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig; a'n
- 4.4.2 bod yn cael yr un dystiolaeth hunaniaeth ar gyfer y personau hynny ag y byddem pe byddent wedi gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio Defnyddwyr. Mae'n rhaid i bob person arall sydd wedi ei gynnwys ar y

ffurflen Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig ffurfio'r cytundeb hwn gyda ni trwy lofnodi'r ffurflen. Os oes gan yr ymgeisydd a'r person a enwir gyfenwau gwahanol bydd angen talu dwy ffi.

- 4.5 Gallwn dderbyn cais yn ymwneud â phost wedi ei gyfeirio at berson sydd yn fethdalwr a wnaed gan yr Ymddiriedolwr penodedig mewn Methdaliad a/ neu y Derbynydd Swyddogol cyhyd â'n bod yn cael cadarnhad o'r penodiad ac unrhyw wybodaeth ategol y byddwn yn gofyn amdani.
- 4.6 Byddwn yn sefydlu ac yn darparu gwasanaeth Ailgyfeirio os bydd yn ofynnol i ni wneud hynny trwy orchymyn Llys.

## 5 Eich rhwymedigaethau

- 5.1 Mae'n rhaid i chi:
- 5.1.1 gydymffurfio â phob un o'r darpariaethau yn y cytundeb hwn;
- 5.1.2 cydweithredu â ni ym mhob mater yn ymwneud â'r gwasanaeth Ailgyfeirio; a
- 5.1.3 darparu ar ein cyfer ni, cyn gynted â phosibl, y fath wybodaeth ychwanegol a diweddar ag y byddwn yn gofyn yn rhesymol amdani.

## 6 Cadarnhau'r gwasanaeth Ailgyfeirio

- 6.1 Wrth dderbyn cais, byddwn yn anfon llythyr i'r hen gyfeiriad, wedi ei gyfeirio at y prif ymgeisydd, yn cydnabod ein bod wedi derbyn y cais (**hysbysiad cadarnhau**). Os byddwch yn gwneud cais ar-lein byddwch yn derbyn ebost yn cadarnhau. Os ydych chi (neu unrhyw berson ychwanegol) eisoes wedi symud o'r hen gyfeiriad neu os nad ydych yno mwyach, neu os ydych wedi gwneud cais bod gwasanaeth Ailgyfeirio yn dod i rym o fewn pum diwrnod gwaith o ddyddiad y cais, byddwn yn anfon yr hysbysiad cadarnhau i'r hen gyfeiriad a'r cyfeiriad newydd.
- 6.2 Fel cam diogelwch, wrth dderbyn cais, efallai y byddwn hefyd yn anfon llythyr at ddeiliaid yr hen gyfeiriad yn eu hysbysu ynghylch y gwasanaeth Ailgyfeirio.
- 6.3 Byddwn yn darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio oni bai ein bod yn derbyn cyfathrebiad o ganlyniad i anfon yr hysbysiad cadarnhau sydd yn nodi bod angen ymchwiliadau pellach ynghylch dilysrwydd y cais.

## 7 Hyd y gwasanaeth Ailgyfeirio

- 7.1 Yn amodol ar yr hawliau i ganslo a dod â'r gwasanaeth Ailgyfeirio i ben yng nghymalau 13 a 15, byddwn yn darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio am y tymor Ailgyfeirio. Bydd hwn yn dechrau ar y diweddaraf o'r canlynol:
- 7.1.1 pum diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y byddwn yn derbyn y cais (oni bai ein bod yn cytuno fel arall); a'r
- 7.1.2 dyddiad a nodir yn y cais.

- 7.2 Byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio ar ddiwedd y tymor Ailgyfeirio ac yna'n dosbarthu'r holl bost yn unol â'r cyfeiriad arno.
- 7.3 Uchafswm y tymor Ailgyfeirio yw dwy flynedd, yn cynnwys unrhyw estyniadau. Caiff hyn ei leihau i chwe mis ar gyfer Ailgyfeirio o Flwch SP.

## 8 Estyniadau i'r tymor Ailgyfeirio

- 8.1 Os ydych angen i'r gwasanaeth Ailgyfeirio gael ei ddarparu'n fwy na'r cyfnod a nodir ar y cais, dylech wneud cais i ymestyn, ar-lein (yn [www.royalmail.com/redirection](http://www.royalmail.com/redirection)), dros y ffôn (drwy ffonio ein Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid) neu drwy'r post (fel y bo'n berthnasol). Mae'n rhaid i ni dderbyn eich cais i ymestyn o leiaf pum diwrnod gwaith cyn diwedd y tymor Ailgyfeirio presennol er mwyn sicrhau gwasanaeth di-dor. Ni ellir adnewyddu yn Swyddfa'r Post®. Gellir ymestyn Ailgyfeiriadau hyd at yr uchafswm a nodir yng nghymal 7.3.
- 8.2 Ni allwch ymestyn gwasanaeth Ailgyfeirio am fwy na thri mis ar ôl iddo ddod i ben. Bydd angen i chi lenwi cais newydd os bydd hyn yn digwydd.
- 8.3 Codir tâl am ymestyn hyd y gwasanaeth Ailgyfeirio. Mae'r taliadau'n amrywio. Mae'r prisiau cyfredol ar gael gan ein tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid, mewn canghennau Swyddfa'r Post® ac fe'u nodir yn [www.royalmail.com/redirection](http://www.royalmail.com/redirection). Byddwn yn cadarnhau'r pris ar eich cyfer pan fyddwch yn gwneud cais am estyniad.

## 9 Cyfyngiadau ar y gwasanaeth Ailgyfeirio ac amseriad dosbarthu

- 9.1 Ni ddylech wneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio yn yr amgylchiadau canlynol:
- 9.1.1 os yw'r hen gyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
- 9.1.2 os yw'r hen gyfeiriad yn gyfeiriad Swyddfa'r Post® Lluoedd Prydain (ond gallwch wneud cais os yw'r cyfeiriad newydd yn gyfeiriad Swyddfa'r Post® Lluoedd Prydain).
- 9.1.3 os yw'r hen gyfeiriad yn gyfeiriad aml-ddeiliadaeth nad yw wedi ei raddio ar wahân at ddibenion y dreth gyngor ac nad oes ganddo fan dosbarthu unigryw. Mae adeiladau o'r fath yn cynnwys tai preswyl, neuaddau preswyl prifysgolion, cartrefi nyrsio, safleoedd carafannau, ysbytai, blychau post a gwestai.
- 9.1.4 os yw'r hen gyfeiriad yn gyfeiriad Post Restante, neu os yw'r cyfeiriad newydd yn (i) gyfeiriad Post Restante y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu (ii) swyddfa ddsbarthu neu Swyddfa Bost® y Post Brenhinol.
- 9.2 Os yw'r hen gyfeiriad yn gyfeiriad busnes. Os ydych eisiau gwneud cais am wasanaeth ailgyfeirio o gyfeiriad busnes, dylech gyfeirio at Wasanaeth Ailgyfeirio Busnes y Post Brenhinol ac mae'r manylion ar gael yn [www.royalmail.com/redirection](http://www.royalmail.com/redirection)

## 9.3 Yn ogystal rydych yn cytuno ac yn cydnabod:

- 9.3.1 Y gellir ond darparu Ailgyfeiriadau o un hen gyfeiriad i un cyfeiriad newydd. Rydych yn derbyn y gallai'r gwasanaeth Ailgyfeirio effeithio ar amserau dosbarthu. Byddwn yn defnyddio pob ymdrech rhesymol i ddsbarthu post wedi ei ailgyfeirio yn unol â'n graddfeydd amser arferol ond nid yw hyn wedi ei warantu a gall fod oedi. Dylech wneud trefniadau amgen gyda'r anfonwr (fel defnyddio'r cyfeiriad newydd) os yw dosbarthu'n brydlon yn hanfodol, ac argymhell unrhyw berson ychwanegol i wneud yr un peth. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw oedi rhesymol yn dosbarthu post wedi ei ailgyfeirio.
- 9.3.2 Nid yw'r dyddiadau cyflenwi gwarantedig, fel y rheiny a ddarperir yn unol â gwasanaeth Special Delivery y Post Brenhinol, yn berthnasol i bost wedi ei ailgyfeirio. Bydd angen llofnod wrth ddsbarthu ar eitemau Special Delivery a Signed For y Post Brenhinol o hyd.
- 9.3.3 Gellir ond ailgyfeirio post wedi ei gyfeirio ar y cyd (er enghraifft, post wedi ei gyfeirio at Mr a Mrs Smith) os oes gwasanaeth Ailgyfeirio wedi cael ei sefydlu yn cynnwys y ddau enw, wedi ei lofnodi gan y ddau ohonynt (neu bobl yn gweithredu ar eu rhan) ac yn ailgyfeirio post i'r un cyfeiriad newydd. Os nad oes unrhyw wasanaeth Ailgyfeirio o'r fath, byddwn yn dosbarthu post wedi ei gyfeirio ar y cyd yn unol â'r cyfeiriad arno, oni bai ein bod yn cael cyfarwyddyd ysgrifenedig gan y ddau barti yn nodi ble y dylid anfon post o'r fath. Mae'n rhaid i'r cyfarwyddyd gael ei anfon i'r cyfeiriad a nodir yng nghymal 19.1.
- 9.3.4 Ni allwn ailgyfeirio eitemau Special Delivery, Packets, Tracked neu Signed For i gyfeiriadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Ni fyddwn yn ailgyfeirio (i) eitemau sydd wedi eu cludo trwy ein gwasanaeth Tracked High Volume wedi eu nodi fel Restricted Goods. Ni allwn ailgyfeirio unrhyw eitemau dros 25mm mewn trwch, na 100g mewn pwysau y tu allan i'r Deyrnas Unedig, sy'n ymddangos fel pe bai'n cynnwys nwyddau. Gellir ailgyfeirio eitemau islaw'r trwch a'r pwysau hyn, ac eitemau sydd yn amlwg ond yn cynnwys papur wedi ei argraffu, dramor. Mae'r cyfyngiadau hyn yn bodoli oherwydd:
- 9.3.5 Mae angen datganiad tollau CN22 or CN23 ar eitemau sydd yn cynnwys nwyddau a anfonir i gyrchfannau nad ydynt yn yr UE. Mae'n rhaid llenwi a llofnodi'r rhain gan yr anfonwr wrth eu postio. Ni allwn lenwi'r ffurflenni hyn fel rhan o wasanaeth Ailgyfeirio;

- 9.3.6 mae gan bob gwlad, yn yr UE neu'r tu allan i'r UE, restrau penodol o waharddiadau a chyfyngiadau yn nodi'r hyn y gellir ac na ellir ei anfon i'r gwledydd hynny. Ni allwn Ailgyfeirio eitemau dramor os nad ydym yn gwybod beth y maent yn ei gynnwys a gallai'r cynnwys fod wedi eu cynnwys yn y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yng ngwlad y gyrchfan; ac
- 9.3.7 mae uchafswm cyfyngiadau maint rhyngwladol 40% yn llai na'r rheiny a ganiateir yn ein gwasanaethau domestig ni.
- 9.3.8 Bydd unrhyw eitemau a anfonir gan ddefnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a nodir yng nghymal 9.9 tra bod gwasanaeth Ailgyfeirio wedi ei sefydlu'n cael ei ddychwelyd at yr anfonwr. Os ydych chi (neu unrhyw berson ychwanegol) yn disgwyl eitemau i gael eu hanfon i'r hen gyfeiriad gan ddefnyddio un o'r gwasanaethau hyn dylech chi (neu nhw) ddweud wrth yr anfonydd i ddefnyddio'r cyfeiriad newydd, a'ch bod yn cytuno i roi gwybod i'r person ychwanegol.
- 9.3.9 Byddwn ond yn ailgyfeirio eitemau a anfonir gan ddefnyddio ein gwasanaethau post ni. Ni fydd eitemau Parcefôrce Worldwide, ac eitemau a ddsberthir gan ddefnyddio unrhyw weithredwr post arall, yn cael eu hailgyfeirio gennym ni. Ni fyddwn yn gyfrifol am y gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan unrhyw weithredwr post arall.
- 9.3.10 Mae cyfreithiau sydd yn ein hatal ni rhag ailgyfeirio rhai eitemau. Mae cyfreithiau hefyd sy'n gofyn i ni ddychwelyd eitemau penodol at yr anfonwr ac efallai fydd angen i ni hysbysu'r awdurdodau am hyn (er enghraifft, post gan adrannau'r llywodraeth yn ymwneud â budd-daliadau). Hyd yn oed os ydym yn derbyn cais, ni fydd unrhyw eitemau o'r fath yn cael eu hailgyfeirio i'r cyfeiriad newydd.
- 9.3.11 Nid oes rhaid i ni ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio os byddwn o'r farn ei fod yn annogel neu'n afresymol i chi ddisgwyl i ni wneud hynny.
- 9.3.12 Ni allwn ailgyfeirio eitemau sydd wedi eu nodi fel Nwyddau a Ganiateir.

## 10 Taliad

- 10.1 Rydych yn cytuno i dalu ein taliadau presennol ar gyfer y gwasanaeth Ailgyfeirio ac unrhyw estyniad i hyd y gwasanaeth Ailgyfeirio. Ni fyddwn yn dechrau'r gwasanaeth Ailgyfeirio nes ein bod wedi derbyn taliad wedi clirio yn llawn. Ni fyddwn yn ymestyn y tymor Ailgyfeirio nes ein bod wedi derbyn taliad wedi clirio yn llawn o'r taliadau ar gyfer ymestyn hyd y gwasanaeth Ailgyfeirio.
- 10.2 Mae'r taliadau ar gyfer Ailgyfeiriadau wedi eu nodi ar y ffurflen berthnasol a, lle y bo'n berthnasol, yn cynnwys TAW. Mae'r taliadau'n amrywio. Mae'r taliadau cyfredol ar gael yn [www.royalmail.com/redirection](http://www.royalmail.com/redirection),

canghennau Swyddfa'r Post®, neu ar gais gan ein tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid.

- 10.3 Fel rhan o'n mesurau diogelwch, gallem ei wneud yn ofynnol, pan fyddwch yn talu am yr Ailgyfeiriad ar-lein, bod y cerdyn debyd neu gredyd a ddefnyddir i dalu wedi ei gofrestru yn yr hen gyfeiriad. Os byddwch yn talu am y gwasanaeth Ailgyfeirio dros y ffôn, mae'n rhaid i'r cerdyn Credyd neu Ddebyd fod wedi ei gofrestru yn yr hen gyfeiriad, neu i bersonau neu gyfeiriad arall fel sy'n ofynnol gennym, a bydd unrhyw ad-daliad yn cael ei wneud i'r cerdyn a ddefnyddiwyd. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw estyniad i dymor yr Ailgyfeiriad a wneir yn unol â chymal 8.

## 11 Ein hatebolrwydd

- 11.1 Byddwn ond yn darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio at ddefnydd domestig a phreifat. Os byddwch yn cytuno i beidio (a sicrhau nad yw'r personau ychwanegol yn) defnyddio'r gwasanaeth Ailgyfeirio at unrhyw ddiben masnachol neu fusnes, ac ni fyddwn yn gyfrifol am:
- 11.1.1 unrhyw golli elw, colli busnes, amhariad ar fusnes neu golli cyfle busnes; neu
- 11.1.2 unrhyw golled neu niwed arall, ym mhob achos, sydd yn deillio o unrhyw ddefnydd o'r gwasanaeth Ailgyfeirio at ddibenion masnachol neu fusnes.
- 11.2 Os na fyddwn yn darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio fel sy'n ofynnol yn ôl y cytundeb hwn oherwydd ein hesgeulustod ni yn torri amodau'r cytundeb hwn neu am unrhyw reswm arall yr ydym ni yn gyfrifol amdano yn ôl y gyfraith byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd gennych chi am y gwasanaeth Ailgyfeirio ar sail pro rata ar gyfer bob diwrnod gwaith pan na wnaethom ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio fel oedd yn ofynnol yn unol â'r cytundeb hwn, a dyna fydd ein hunig atebolrwydd i chi (yn amodol ar gymalau 11.4 a 11.5).
- 11.3 Yn amodol ar gymal 11.4, ni fydd y cyfanswm y byddwn yn atebol i'w dalu yn unol â chymal 11.2 yn mynd y tu hwnt i'r taliadau a dalwyd am y gwasanaeth Ailgyfeirio.
- 11.4 Nid ydym yn eithrio nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ein hatebolrwydd na ellir yn ôl y gyfraith gael ei eithrio na'i gyfyngu, fel atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod.
- 11.5 Nid oes unrhyw beth yn y cytundeb hwn yn effeithio ar eich hawliau statudol neu hawliau eraill yn unol â chynllun neu gontract ar gyfer dosbarthu eitem bost. Caiff cludo pecyn, llythyr neu unrhyw eitem bost arall yn unol â'n gwasanaethau post, sydd yn destun Ailgyfeirio, ei lywodraethu naill ai gan gynllun a wnaed yn unol â Deddf Swyddfa'r Post® 1969, Deddf Gwasanaethau Post 2000 neu gontract gyda ni, ac mae iawndal am golli neu niweidio eitem o'r fath, neu os ydym yn dosbarthu eitem yn hwyr, yn cael ei ddarparu gan y cynllun neu'r contract hwnnw ac nid y cytundeb hwn. Mae mwy o wybodaeth am y cynlluniau yn [www.royalmail.com/termsandconditions](http://www.royalmail.com/termsandconditions) Mae cyngor am eich hawliau cyfreithiol ar gael yn eich Canolfan Cyngor ar Bopeth lleol neu eich swyddfa

## 12 Eich atebolrwydd

- 12.1 Mae'n rhaid i chi dalu i ni ein costau rhesymol o ganlyniad i amddiffyn unrhyw gamau a gymerwyd yn ein herbryn ni neu ar ran unrhyw berson (neu ystâd unrhyw berson ymadawedig) neu drydydd parti, lle nad oedd gennych awdurdod i wneud cais ar ran neu'n ymwneud â'r person hwnnw a'ch bod yn gwybod neu y dylech fod wedi gwybod hynny ac nad oes gennych unrhyw esboniad rhesymol dros fod wedi gwneud hynny, cyhyd â'n bod wedi dilyn ein prosesau ar gyfer gwirio hawl i wneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio. Bydd cost o'r fath yn cynnwys ein costau cyfreithiol rhesymol yn amddiffyn unrhyw gamau, trafod unrhyw setliad a thalu unrhyw swm a ddyfarnwyd gan Lys o ganlyniad i weithred gan berson o'r fath neu a gytunwyd yn rhesymol gyda pherson o'r fath.

## 13 Canslo'r Gwasanaeth Ailgyfeirio

- 13.1 Gallwch ganslo'r gwasanaeth Ailgyfeirio unrhyw bryd cyn i'r gwasanaeth Ailgyfeirio ddechrau a byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd am y gwasanaeth Ailgyfeirio. Mae'n rhaid i chi ein hysbysu o'ch dymuniad i ganslo yn unol â chymal 13.3. Mae'r hawl hwn i ganslo yn ychwanegol i, ac nid yw'n effeithio ar, eich hawliau statudol.
- 13.2 Mae gennych hefyd hawl statudol i ganslo gwasanaeth Ailgyfeirio o fewn 14 diwrnod calendr yn dechrau ar y dyddiad ar ôl i ni anfon llythyr cadarnhau atoch (os gwnaethoch gais mewn cangen o Swyddfa'r Post®, drwy'r post neu dros y ffôn) neu ebost yn cadarnhau (os gwnaethoch gais ar-lein) (y "**Cyfnod Canslo**").
- 13.3 I ganslo'r gwasanaeth Ailgyfeirio mae'n rhaid i chi:
- 13.3.1 Os gwnaethoch gais mewn cangen o Swyddfa'r Post® neu drwy'r post neu dros y ffôn, anfon eich cais yn ysgrifenedig i: Cancel my Redirection, Royal Mail Redirection Centre, PO Box 944, Stoke-on-Trent ST1 5DB. At ddibenion diogelwch, mae'n rhaid i chi ddarparu eich cyfeiriad llawn, eich dyddiad geni, yr hen gyfeiriad a'r cyfeiriad newydd, a llofnod fel y geir ar y cais. Darperir Ffurflen Ganslo yn Atodiad 1; neu
- 13.3.2 Os gwnaethoch gais ar-lein, gallwch hefyd anfon ebost o'ch cais i: **customerservice@your.royalmail.com**. At ddibenion diogelwch, mae'n rhaid i'ch cais fod o'r un cyfrif ebost a ddefnyddiwyd i wneud y cais ac mae'n rhaid i chi roi eich enw llawn, eich dyddiad geni, a'r hen gyfeiriad a'r cyfeiriad newydd fel y rhoddwyd ar y cais. Noder y gall gymryd hyd at 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais i ganslo i'r gwasanaeth Ailgyfeirio ddod i ben.
- 13.4 Os byddwch yn anfon eich cais i ganslo:
- 13.4.1 yn ystod y Cyfnod Canslo ac nad yw'r

gwasanaeth Ailgyfeirio wedi dechrau, byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd am y gwasanaeth Ailgyfeirio yn llawn;

- 13.4.2 o fewn y Cyfnod Canslo ac, yn unol â'ch Cais, mae'r gwasanaeth Ailgyfeirio wedi dechrau, byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd am y gwasanaeth Ailgyfeirio llai £10 i gynnwys ein costau sefydlu a chyflenwi'r gwasanaeth; neu
- 13.4.3 ar ôl y Cyfnod Canslo ac, yn unol â'ch cais, mae'r Ailgyfeirio wedi dechrau, ni fyddwn yn rhoi ad-daliad.

- 13.5 Byddwn yn rhoi ad-daliadau o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn eich cais i ganslo.

## 14 Atal Gwasanaeth Ailgyfeirio Dros Dro

- 14.1 Fel dewis amgen i ganslo, gallwn gytuno i atal y gwasanaeth Ailgyfeirio dros dro, cyhyd â bod y prif ymgeisydd yn rhoi 5 diwrnod gwaith o rybudd i ni a chyhyd â bod y gwasanaeth Ailgyfeirio heb ddechrau ac na fydd yn dechrau yn y cyfnod hwnnw o 5 diwrnod. Os byddwn yn cytuno i atal y gwasanaeth Ailgyfeirio dros dro, ni fydd tymor y gwasanaeth Ailgyfeirio yn dechrau nes bod y prif ymgeisydd yn ein hysbysu yn ysgrifenedig yn y cyfeiriad a nodir yng nghymal 19.1.
- 14.2 Byddwn ond yn atal y gwasanaeth Ailgyfeirio dros dro am hyd at 3 mis o'r dyddiad yr oedd y gwasanaeth Ailgyfeirio i fod i ddechrau. Os ar ddiwedd y cyfnod hwn nad yw'r prif ymgeisydd wedi ein hysbysu ei fod ef neu hi'n dymuno i'r gwasanaeth Ailgyfeirio ddechrau yn y cyfnod hwn, byddwn yn ad-dalu'r taliadau a dalwyd i ni am y gwasanaeth Ailgyfeirio. Os byddwch ar ôl hyn yn dymuno cael gwasanaeth Ailgyfeirio, bydd angen i chi lenwi cais newydd.

## 15 Dod â'r Cytundeb hwn i ben

- 15.1 Gallwn ddod â'r cytundeb hwn i ben, neu roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio, trwy roi o leiaf 30 o ddiwrnodau o rybudd ysgrifenedig yn y cyfeiriad newydd i'r prif ymgeisydd. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn gwneud ad-daliad pro rata o'r taliadau yr ydym wedi eu derbyn yn ymwneud â'r cyfnod sydd heb ddod i ben o'r tymor Ailgyfeirio.
- 15.2 Byddwn yn dod â'r cytundeb hwn i ben, ac yn terfynu'r gwasanaeth Ailgyfeirio ar unwaith os:
- 15.2.1 rydym yn credu nad oes gennych hawl i'r gwasanaeth Ailgyfeirio neu nad oes gennych awdurdod i wneud cais amdano;
- 15.2.2 nad yw'r taliadau am ein costau'n cael eu hanrhydeddu neu'n cael eu gwrthod gan fanc y talwr; neu
- 15.2.3 mae'n ofynnol i ni wneud hynny o ganlyniad i orchymyn Llys neu unrhyw benderfyniad neu ofyniad cyfreithiol neu reoliadol arall.
- 15.3 Gallwch chi neu ni ddod â'r cytundeb hwn i ben ar unwaith trwy roi rhybudd i'r llall os nad yw'r llall yn cydymffurfio ag unrhyw un o'i gyfrifoldebau yn unol â'r

cytundeb hwn ac:

- 15.3.1 ni allant wneud unrhyw beth i unioni'r mater; neu
  - 15.3.2 gallant unioni'r mater, ond maent yn methu gwneud hynny o fewn 14 diwrnod o ofyn iddynt wneud hynny.
- 15.4 Mae'n rhaid anfon unrhyw hysbysiad gennych chi yn unol â'r cymal 15.3 hwn atom ni gan y prif ymgeisydd (p'un ai ar eu cyfer eu hunain neu ar eich rhan). Byddwn yn anfon unrhyw hysbysiad ar eich cyfer chi yn unol â'r cymal hwn at y prif ymgeisydd.
- 15.5 Os byddwch chi neu ni yn dod â'r cytundeb hwn i ben, byddwn yn cadw'r hawliau sydd gennym yn erbyn ein gilydd er gwaetha'r ffaith fod y cytundeb wedi dod i ben.
- 15.6 Bydd unrhyw gymalau sydd wedi eu bwriadu yn benodol neu trwy honiad i barhau mewn grym ar ôl i'r cytundeb hwn ddod i ben yn gwneud hynny. Heb gyfyngu ar y frawddeg flaenorol, bydd cymalau 1, 11, 12, 15.5, 19, 20 a 22 yn goroesi ac yn parhau i fod yn berthnasol er gwaetha'r ffaith fod y cytundeb hwn wedi dod i ben.

## 16 Diwygio'r Gwasanaeth Ailgyfeirio

- 16.1 Mewn perthynas â gwasanaeth Ailgyfeirio i Ddefnyddwyr y gwnaed cais amdano gan ddefnyddio ffurflen bapur:
- (a) gall y prif ymgeisydd ddiwygio'r gwasanaeth Ailgyfeirio ar ran y prif ymgeisydd a'r holl bersonau ychwanegol; neu
  - (b) gall person ychwanegol ddiwygio'r gwasanaeth Ailgyfeirio ar ei ran ef ei hun cyhyd â'n bod yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r diwygiad (yn y cyfeiriad a nodir yng nghymal 19.1) dim hwyrach na 7 diwrnod gwaith cyn dechrau'r tymor Ailgyfeirio. Nid yw unrhyw ddiwygiad i'r hen gyfeiriad yn bosibl. Bydd angen gwasanaeth Ailgyfeirio arall ar hen gyfeiriad gwahanol.
- 16.2 Mewn perthynas â gwasanaeth Ailgyfeirio i Ddefnyddwyr y gwnaed cais amdano gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu dros y ffôn, dim ond y prif ymgeisydd all ddiwygio'r gwasanaeth Ailgyfeirio cyhyd â'n bod yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r diwygiad (yn y cyfeiriad a nodir yng nghymal 19.1) dim hwyrach na 7 diwrnod gwaith cyn dechrau'r tymor Ailgyfeirio. Nid yw unrhyw ddiwygiad i'r hen gyfeiriad yn bosibl. Bydd angen gwasanaeth Ailgyfeirio newydd ar hen gyfeiriad gwahanol.
- 16.3 Mewn perthynas â gwasanaeth Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig, gall y prif ymgeisydd ddiwygio'r gwasanaeth Ailgyfeirio cyn i'r gwasanaeth Ailgyfeirio ddechrau, cyhyd â'n bod yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r diwygiad (yn y cyfeiriad a nodir yng nghymal 19.1) dim hwyrach na 7 diwrnod gwaith cyn dechrau'r tymor Ailgyfeirio. Nid yw unrhyw ddiwygiad i'r hen gyfeiriad yn bosibl. bydd angen gwasanaeth Ailgyfeirio arall ar hen gyfeiriad gwahanol.
- 16.4 Oherwydd yr amser sydd ei angen arnom i sefydlu gwasanaeth Ailgyfeirio, rydych yn cytuno y bydd unrhyw ddiwygiad i'r gwasanaeth Ailgyfeirio y

gwneir cais amdano yn ystod y 7 diwrnod gwaith cyn dechrau'r tymor Ailgyfeirio, yn gwneud canslo'r gwasanaeth Ailgyfeirio yn ofynnol, fydd yn cael ei brosesu yn unol â chymal 19.1.

## 17 Newidiadau i'r cytundeb hwn

- 17.1 Gallwn ddiwygio'r telerau hyn (yn cynnwys newidiadau i daliadau perthnasol) trwy roi o leiaf tri deg o ddiwrnodau o rybudd i chi trwy gyhoeddi newidiadau o'r fath ar ein gwefan. Byddwn ond yn gwneud newidiadau am reswm da yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:
- 17.1.1 wneud y telerau hyn yn gliriach ac yn fwy ffafriol i chi;
  - 17.1.2 adlewyrchu cynnydd neu ostyngiadau dilys yng nghost darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio (ni weithredir unrhyw gynnydd o'r fath yn adolygol);
  - 17.1.3 darparu ar gyfer cyflwyno systemau a gwasanaethau newydd, newidiadau mewn technoleg a chynnrych;
  - 17.1.4 cywiro unrhyw gamgymeriadau y gellir eu canfod maes o law; neu
  - 17.1.5 adlewyrchu newid i gyfraith neu reoliad perthnasol.
- 17.2 Os byddwn yn ddiwygio'r cytundeb hwn a'ch bod yn anhapus gyda'r newidiadau hynny, gallwch ddod â'r cytundeb hwn i ben trwy ysgrifennu atom ni yn y cyfeiriad a nodir yng nghymal 19.1 a byddwn yn rhoi ad-daliad pro rata i chi o'r taliadau yr ydym wedi eu derbyn yn ymwneud â'r cyfnod sydd heb ddod i ben o'r tymor Ailgyfeirio.
- 17.3 Gall unrhyw ddiwygiad sy'n cael ei wneud i adlewyrchu newid i gyfraith neu reoliad perthnasol ddod i rym ar unwaith neu fel arall fel y gallwn nodi.

## 18 Cwynion

- 18.1 Os ydych yn anhapus gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd gennym ni mae gennym broses gwyno fewnol. Mae manylion ein gweithdrefn gwyno ar gael yn [www.royalmail.com](http://www.royalmail.com)
- 18.2 Os nad ydych yn fodlon gyda'n hymateb terfynol i'ch cwyn, bydd eich achos yn cael ei ystyried fel un annatrys. Yn yr amgylchiadau hyn, gallwch ddyrchafu eich cwyn i'r Gwasanaeth Unioni Post (POSTRS). Mae hwn yn gynllun annibynnol allanol fel Ombwdsmon.
- 18.3 Swyddogaeth POSTRS yw datrys anghydfodau cwsmeriaid. Mae POSTRS yn darparu gwasanaeth am ddim ac rydym yn gaeth i'w canfyddiadau. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan POSTRS [www.posters.org.uk](http://www.posters.org.uk)

## 19 Hysbysadau

- 19.1 Os oes angen rhoi hysbysadau i ni yn ysgrifenedig, mae'n rhaid i chi eu hanfon atom drwy'r post i Royal

Mail Redirection Centre, PO BOX 944, Stoke-On-Trent ST1 5DB, United Kingdom.

- 19.2 Yn gyffredinol byddwn yn cyfeirio unrhyw hysbysiadau atoch chi i'r cyfeiriad newydd, wedi eu nodi at sylw'r prif ymgeisydd. Fodd bynnag, os oes gennym reswm da dros ystyried unrhyw gyfeiriad neu berson arall i fod yn fwy priodol, rydym yn cadw'r hawl i anfon unrhyw hysbysiad i'r cyfeiriad neu at y person hwnnw yn lle neu yn ogystal â'r cyfeiriad newydd.
- 19.3 Oni nodir fel arall yn y cytundeb hwn, byddwn yn ystyried bod unrhyw hysbysiad wedi cael ei roi dau ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafodd ei bostio'n gywir.

## 20 Diogelu Data a chyfrinachedd

- 20.1 Bydd y manylion sydd wedi eu cynnwys ar y ffurflen hon, neu a ddarperir mewn unrhyw gais a wneir dros y ffôn, (yn cynnwys manylion unrhyw un o dan 16 oed) yn cael eu defnyddio gennym ni, trydydd partion sy'n gweithredu ar ein rhan a sefydliadau eraill a ddewisir gennym ni at y dibenion canlynol:
- 20.1.1 prosesu'r gwasanaeth Ailgyfeirio a chydymffurfio â'r telerau hyn;
- 20.1.2 hysbysu gweithredwyr post eraill am y gwasanaeth Ailgyfeirio i'w galluogi i ddsbarthu post; a
- 20.1.3 hysbysu sefydliadau nad yw'r bobl y mae eu post yn cael ei ailgyfeirio yn yr hen gyfeiriad bellach i'w helpu i osgoi cysylltu â'r bobl hynny yn yr hen gyfeiriad.
- 20.2 Bydd y manylion a geir ar y ffurflen bapur ac electronig, neu a ddarperir gan unrhyw gais a wneir dros y ffôn, (ac eithrio manylion unrhyw un o dan 16 oed) yn cael eu defnyddio gennym ni, trydydd partion sy'n gweithredu ar ein rhan a sefydliadau eraill a ddewiswyd gennym ni at y dibenion a ddisgrifiwyd yng nghymal 8.1 ac at y dibenion canlynol:
- 20.2.1 trosglwyddo manylion yn ymwneud â statws y gwasanaeth Ailgyfeirio i sefydliadau eraill i atal twyll a/neu wyngalchu arian (gallai hyn gynnwys dilysu hunaniaeth at ddibenion atal twyll a gwrth-wyngalchu arian);
- 20.2.2 cyn y dyddiad symud a nodir ar y ffurflen, neu mewn unrhyw gais a wneir dros y ffôn, cysylltu â deiliaid presennol y cyfeiriad newydd i:
- (a) awgrymu eu bod hefyd yn gwneud cais am wasanaeth Ailgyfeirio, er mwyn iddynt allu derbyn post ar ôl symud ac er mwyn atal twyll a/neu wyngalchu arian; a
- (b) chynnig gostyngiadau symud tŷ, cynigion a gwybodaeth iddynt gan nifer ddethol o sefydliadau, yn cynnwys Grŵp y Post Brenhinol.
- 20.2.3 ar ôl y dyddiad symud a nodir ar bapur ac yn electronig, neu mewn unrhyw gais a wneir dros y ffôn, cysylltu â deiliaid newydd yr

hen gyfeiriad i gynnig gostyngiadau symud tŷ, cynigion a gwybodaeth iddynt gan nifer ddethol o sefydliadau, yn cynnwys Grŵp y Post Brenhinol.

- 20.3 Gallwn ysgrifennu atoch (yn cynnwys anfon ebost) yn fuan cyn diwedd y tymor Ailgyfeirio i ofyn a ydych yn dymuno ymestyn y tymor a rhoi gwybodaeth i chi ynghylch sut i wneud hyn, hyd yn oed pan fyddwch yn dewis peidio derbyn gwybodaeth farchnata arall. Trwy ffurfio cytundeb gyda ni am wasanaeth Ailgyfeirio, rydych yn rhoi caniatâd i ni gysylltu â chi yn y ffordd hon.
- 20.4 Pan fyddwch yn llenwi eich cais, gallwch ddewis o ddau wasanaeth yr ydym yn ei gynnig sydd yn cynnwys defnyddio eich manylion personol. Os ydych wedi llenwi ffurflen gais, mae'r gwasanaethau hyn wedi eu nodi yn yr adran "Sut rydym yn defnyddio eich data" o'r ffurflen a gallwch ddewis peidio derbyn y gwasanaethau hyn trwy roi tic yn y blychau perthnasol yn yr adran honno. Os byddwch yn gwneud cais dros y ffôn, gofynnir i chi a ydych eisiau dewis peidio derbyn y gwasanaethau hyn yn ystod eich galwad. Gallwch hefyd gysylltu â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid unrhyw bryd i ddewis peidio eu derbyn, ac nid ydych yn gymwys i gael y gwasanaethau hyn os ydych o dan 16 oed. Ceir may o fanylion am y ddau wasanaeth hyn isod:
- 20.4.1 mae'r gwasanaeth cyntaf yn ein galluogi ni i ddarparu manylion cyswllt (cyfeiriad, ebost a rhif ffôn) bob person sydd wedi eu cynnwys yn eich cais ar gyfer sefydliadau sydd eisoes yn eu gwybod, er mwyn i'r sefydliadau hynny allu diweddarau ac ychwanegu at eu cofnodion. Bydd y sefydliadau hyn wedyn yn gwybod bod pob person wedi symud heb fod angen eu hysbysu; ac
- 20.4.2 mae'r ail wasanaeth yn eich galluogi chi a phob person sydd wedi ei gynnwys yn eich cais i gael gostyngiadau, cynigion a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r rheiny sy'n symud tŷ drwy'r post, ebost a/neu dros y ffôn. Gall y cyfathrebiadau hyn ddod oddi wrthym ni, neu gallwn drosglwyddo manylion cyswllt pob person a enwir ar y cais i drydydd partion sy'n gweithredu ar ein rhan neu sefydliadau eraill sydd wedi eu dewis gennym ni. Byddwn ond yn darparu manylion cyswllt i sefydliadau eraill sy'n darparu cynnyrch neu wasanaethau sy'n berthnasol i'r rheiny sy'n symud tŷ, fel cwmnïau yn y sectorau ynni, y cyfryngau, manwerthu ac yswiriant. Er enghraifft, gallwn rannu manylion cyswllt gyda chyflenwr nwy domestig sydd wedyn yn anfon ebost atoch yn cynnig tariff, neu gyda manwerthwr DIY sydd wedyn yn anfon talebau gostyngiad atoch chi drwy'r post. Byddwn yn sgrinio'r holl ddeunydd o'r fath cyn i ni ei anfon atoch, er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'r rheiny sy'n symud tŷ. Byddwn hefyd yn cymryd camau i sicrhau mai dim ond nifer gyfyngedig o weithiau y bydd y sefydliadau hyn yn cysylltu â phob person. Gallwch hefyd



ddewis nad ydym yn rhannu cyfeiriadau eost gyda'r sefydliadau hyn iddynt eu defnyddio fel hyn, trwy roi tic yn y blychau perthnasol yn yr adran "Sut rydym yn defnyddio eich data" o'r ffurflen gais, pan fyddwch yn gwneud cais dros y ffôn neu ar y pryd trwy gysylltu â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid (gallwn hefyd gyfuno eich data gyda data arall, er enghraifft ein Ffeil Cyfeiriadau Côt Post wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn at ddibenion ailwerthu).

- 20.5 Ni chaiff y manylion a geir ar y ffurflen Ailgyfeirio mewn Amgylchiadau Arbennig eu defnyddio at y dibenion a ddisgrifir yng nghymalau 20.2.2, 20.2.3 na 20.4. Nid yw'r gwasanaeth Ailgyfeirio yn gyfrinachol. Gellir dychwelyd unrhyw eitem heb ei dosbarthu at yr anfonwr yn cynnwys manylion y cyfeiriad newydd.
- 20.6 Gallwn hefyd gadarnhau bodolaeth neu beidio Ailgyfeiriad i unrhyw drydydd parti yr ydym o'r farn bod ganddo hawl cyfreithiol i wybodaeth o'r fath.
- 20.7 Mae'n ofynnol arnom yn ôl y gyfraith i hysbysu rhai awdurdodau pan fydd Ailgyfeiriad wedi ei sefydlu, yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, adrannau eraill y llywodraeth ac awdurdodau lleol.
- 20.8 Gellir hefyd defnyddio'r manylion a geir yn y cais gennym ni a'u rhannu â thrydydd partion pan fyddwn o'r farn bod angen gwneud hyn i gydymffurfio â'r gyfraith neu i ddiogelu ein hawl, eiddo neu ddiogelwch ni neu hawl, eiddo neu ddiogelwch person arall.
- 20.9 Am fwy o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn defnyddio data personol gweler ein Polisi Preifatrwydd yn [www.royalmail.com/privacy-policy](http://www.royalmail.com/privacy-policy)

## 21 Materion y tu hwnt i'n rheolaeth resymol

- 21.1 Ni fyddwn yn gyfrifol i chi nac unrhyw berson ychwanegol os nad ydym yn gallu darparu'r gwasanaeth Ailgyfeirio oherwydd rhywbeth y tu hwnt i'n rheolaeth resymol (fel rhyfel, gweithred o derfysgaeth, tywydd eithafol, daeargrynfeydd, tân, llifogydd, tagfeydd traffig, torri lawr mecanyddol (yn cynnwys peiriannau, offer a cherbydau), rhwystr ar unrhyw ffordd gyhoeddus neu breifat, neu weithredu diwydiannol a'r canlyniadau os yw'n ein hatal ni rhag darparu ein gwasanaeth arferol). Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi yn brydlon am unrhyw ddiogwyddiadau o'r fath.
- 21.2 Os nad ydym yn gallu gwneud ein dyletswyddau yn llawn am fwy na phedair wythnos mewn rhes oherwydd rhywbeth y tu hwnt i'n rheolaeth resymol, gallwch ddod â'r cytundeb hwn i ben trwy roi gwybod i ni yn ysgrifenedig. Mae'n rhaid anfon unrhyw hysbysiad gennych chi yn unol â'r cymal 21.2 hwn atom ni gan y prif ymgeisydd, p'un ai ar eu cyfer nhw eu hunain neu ar eich rhan chi.

## 22 Cyffredinol

- 22.1 Ni fydd person nad yw'n rhan o'r cytundeb hwn yn gallu gorfodi unrhyw delerau, darpariaeth, hawl neu fudd yn unol neu mewn cysylltiad ag ef.
- 22.2 Mae pob un o ddarpariaethau'r cytundeb hwn

yn gweithredu ar wahân. Os yw unrhyw Lys neu awdurdod cymwys yn canfod bod unrhyw ddarpariaeth (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn annilys, yn anghyfreithlon neu na ellir ei ofodi:

- 22.2.1 bydd y ddarpariaeth (neu'r rhan o'r ddarpariaeth), i'r graddau sy'n ofynnol, yn cael eu heithrio rhag bod yn rhan o'r cytundeb hwn; a
- 22.2.2 bydd y darpariaethau sydd yn weddill yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

- 22.3 Mae pob un ohonom yn cydnabod na allwn drosglwyddo'r hawliau a'r dyletswyddau yn unol â'r cytundeb hwn heb ganiatâd y llall, heb fod caniatâd o'r fath yn cael ei ddal yn ôl neu ei oedi'n afresymol. Gallwch ddefnyddio person arall i wneud unrhyw un o'ch dyletswyddau cyhyd â'ch bod yn rhoi gwybod i ni gyntaf. Byddwch yn atebol i ni am unrhyw weithredu y mae person yn ei gwneud neu'n methu ei gwneud. Gallwn ddefnyddio pobl eraill i gyflawni ein dyletswyddau ac ymarfer hawliau ond ni fydd yn gyfrifol amdanynt.
- 22.4 I osgoi unrhyw ansicrwydd ynghylch yr hyn yr ydych yn ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi, mae'r cytundeb hwn yn cynnwys y ffurflen a'r telerau ac amodau hyn yn unig. Darllenwch y ffurflen a'r telerau hyn yn ofalus. Os nad ydych yn deall unrhyw bwynt, cysylltwch â'n tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid am fwy o wybodaeth ar: 0345 774 0740. Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw, gallwn gynnig gwasanaeth ffôn testun i chi ar 0345 600 0606. Gellir recordio, monitro a defnyddio galwadau at ddibenion hyfforddiant a chydymffurfio. Neu, ysgrifennwch i Royal Mail Redirection Centre, PO BOX 944, Stoke-On-Trent ST1 5DB, United Kingdom. Ni fydd unrhyw beth yn y cymal neu'r cytundeb hwn yn gweithredu i gyfyngu neu eithrio unrhyw atebolrwydd am dwyll neu gamddehongli twyllodrus.
- 22.5 Mae'r cytundeb hwn wedi ei lywodraethu gan gyfraith y rhan honno o'r Deyrnas Unedig lle mae'r hen gyfeiriad wedi ei leoli. Bydd unrhyw anghydfod yn ymwneud â'r gwasanaeth Ailgyfeirio neu'n deillio o'r cytundeb hwn mewn cysylltiad ag ef neu ei ffurfio yn cael ei drin gan Lysoedd y rhan honno o'r Deyrnas Unedig lle mae'r hen gyfeiriad wedi ei leoli.
- 22.6 Mae'r cytundeb hwn (yn cynnwys y telerau hyn a'r ffurflen) yn Saesneg yn unig.

## 23 Ceisiadau ar-lein

- 23.1 Mae'r ffurflen ar-lein ar gael i'w llenwi ar y wefan ganlynol: [www.royalmail.com](http://www.royalmail.com) (y Wefan). Mae'r Wefan yn cael ei gweithredu gennym ni.
- 23.2 Mae'r camau sydd eu hangen arnoch i gyflwyno cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar gael yn [www.royalmail.com/redirection](http://www.royalmail.com/redirection)
- 23.3 Llenwch bob adran o'r ffurflen ar-lein yn ofalus. Mae ein proses o wneud cais ar-lein yn eich galluogi chi i wirio a diwygio gwallau cyn cyflwyno eich cais i ni.

- 23.4 Ar ôl i chi gyflwyno'r ffurflen ar-lein, byddwch yn derbyn e-bost gennym ni yn cydnabod ein bod wedi derbyn y ffurflen.
- 23.5 Byddwn hefyd yn cadarnhau ein cydnabyddiaeth o'r ffurflen ar-lein trwy anfon hysbysiad cadarnhau atoch yn unol â chymal 6.1.
- 23.6 Ni fyddwn yn ffeilio copi o'r cytundeb rhyngom ni.



Ebrill 2016. Mae'r Post Brenhinol, y Groesffurf a'r lliw coch yn nodau masnachu cofrestredig i Grŵp y Post Brenhinol Cyf. Grŵp y Post Brenhinol Cyf, cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 4138203, swyddfa gofrestredig: 100 Victoria Embankment London EC4Y 0HQ. © Hawlfraint Grŵp y Post Brenhinol Cyf 2015. Cedwir pob hawl.

TORRWCH YMA

**ATODIAD 1  
FFURFLEN GANSLO**

Nid yw'r ffurflen hon at ddefnydd busnesau.  
(Llenwch a dychwelwch y ffurflen hon DIM OND OS YDYCH YN DYMUNO CANSLO y cytundeb hwn)  
**I: Cancel my Redirection, Royal Mail Redirection Centre, PO BOX 944, Stoke-On-Trent ST1 5DB, United Kingdom.**

Rwyf trwy hyn yn hysbysu fy mod yn dymuno canslo fy nghontract gyda'r Post Brenhinol am y gwasanaeth Ailgyfeirio:

Cyfeirnod: \_\_\_\_\_

Enw llawn y prif ymgeisydd\*: \_\_\_\_\_ Dyddiad geni\*: \_\_\_\_\_

Hen gyfeiriad\*: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Cyfeiriad newydd\*: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Llofnod y prif ymgeisydd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

\*Gwybodaeth sy'n ofynnol at ddibenion diogelwch ac mae'n rhaid iddi gyd-fynd â gwybodaeth a geir yn y cais gwreiddiol.